

## **Y CYFANSODDIAD ADRAN 25 NODIADAU CYFARWYDDYD I AELODAU ETHOLEDIG**

### **Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau, Taliadau i Aelodau Etholedig, y Cynllun Lwfans Gofal, Absenoldeb Teuluol ac Ad-dalu Treuliau Teithio a Chynhaliaeth**

#### **1 Cyflwyniad**

Mae'n hanfodol er mwyn cynorthwyo a gwarchod Aelodau Etholedig bod canllawiau eglur a chynhwysfawr ar y cynllun cydnabyddiaeth ariannol, y cynllun lwfans gofal, absenoldeb teuluol ac ad-dalu treuliau teithio a chynhaliaeth ar gael iddynt.

Mae fframwaith statudol yn rheoli hawl Aelodau i gydnabyddiaeth ariannol, lwfans gofal a threuliau teithio a chynhaliaeth o fewn a'r tu allan i'r DU. Er bod gan gynghorau ddisgresiwn, o fewn y fframwaith hwnnw, i bennu eu rheolau eu hunain, yr hyn sy'n hanfodol yw bod hawliau'n cael eu diffinio'n eglur a'u bod wedi'u cyfyngu i roi ad-daliad i Aelodau am lefelau rhesymol o wariant awdurdodedig a chymeradwy, a ysgwyddwyd yn briodol at ddibenion y Cyngor.

Mae deddfwriaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CaThEM) yn amodi y bydd unrhyw "dreuliau" nas cyfiawnhawyd â derbynebau yn cael eu hystyried yn elw pur ac yn cael eu trethu'n unol â hynny.

Y pwyntiau pwysig y mae'r canllawiau'n mynd i'r afael â hwy yw:

1. Y gofyniad i Aelodau hawlio'n rheolaidd.
2. Bod hawliau i lwfans gofal, treuliau teithio a chynhaliaeth yn "gyfyngedig i roi ad-daliad i Aelodau am lefelau rhesymol o wariant awdurdodedig a chymeradwy, a ysgwyddwyd yn briodol at ddibenion y Cyngor".

Mae'r canllawiau'n cynnwys:

Cydnabyddiaeth Ariannol Benodedig (Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau)

Taliadau i Aelodau Cyfetholedig

Lwfans Gofal

Absenoldeb Teuluol

Manylion Clwb Teithio Busnes

Treuliau Teithio

Cynhaliaeth

Teithio Dramor

Materion Eraill

Atodiad 1 – Cydnabyddiaeth Ariannol Gyfredol

Atodiad 2 – Cyfraddau Gyfredol

Atodiad 3 – Protocol ar gyfer Cyfarfodydd Cyrff Allanol

Atodiad 4 - Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau o Awdurdodau Lleol (Cymru)

## Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau

### (a) Cyflog Sylfaenol (Gweler Atodiad 1)

Mae gan bob Aelod hawl i Gyflog Sylfaenol.

Nid oes angen hawlio. Telir un rhan o ddeuddeg yn awtomatig ar y 15fed o bob mis am y mis hwnnw (Neu ar y dydd Gwener blaenorol os yw'r 15fed ar benwythnos).

Mae'n rhaid i unrhyw Aelod sy'n dymuno peidio â chael y taliad neu sy'n dymuno arfer ei hawl i beidio â chael y swm cyfan hysbysu'r Pennaeth Cyllid (y swyddog cyfrifol) yn ysgrifenedig.

Mae hwn yn ad-daliad i chi am:

- eich amser ar fusnes swyddogol sy'n cynnwys y Bwrdd Gweithredol, pwyllgorau, is-bwyllgorau, panelau, gweithgorau, cyfarfodydd y Cyngor ac unrhyw ddyletswyddau eraill yr ydych yn cynrychioli'r Cyngor wrth eu cyflawni
- eich amser a'ch costau (TG, tâl post, offer swyddfa, treuliau ffôn, teithio lleol a mân dreuliau) fel Cynghorydd Ward (gan gynnwys cynrychioli'r Cyngor ar bethau megis cyrff llywodraethol ysgolion a Phwyllgorau Rheoli Canolfannau Cymunedol lleol).
- eich amser a'ch costau (fel yr uchod) wrth ymdrin ag unrhyw fusnes arall ar ran y Cyngor na thelir Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig amdano.

### (b) Uwch Gyflog (Gweler Atodiad 1)

Nid oes angen hawlio. Telir un rhan o ddeuddeg yn awtomatig ar y 15fed o bob mis am y mis hwnnw (Neu ar y dydd Gwener blaenorol os yw'r 15fed ar benwythnos).

Mae'n rhaid i unrhyw Aelod sy'n dymuno arfer ei hawl i beidio â chael y lwfans neu sy'n dymuno cael llai na'r swm cyfan hysbysu'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh yn ysgrifenedig.

Mae hwn yn ad-daliad i chi am eich amser a mân dreuliau (ond nid costau teithio) wrth gyflawni eich cyfrifoldeb arbennig gan gynnwys cyfarfodydd gyda swyddogion.

Mae'r holl Uwch Gyflogau'n cynnwys y Cyflog Sylfaenol.

## 2. TALIADAU I AELODAU CYFETHOLEDIG ( Gweler Atodiad 1)

Mae gan Aelodau Cyfetholedig (Cadeiryddion ac Aelodau) â hawliau pleidleisio hawl i ffi ddyddiol (gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod). Mae'r taliadau wedi'u capio ar uchafswm sy'n cyfateb i 10 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y gellir cyfethol unigolyn iddo. Mae amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn cyfarfod yn gymwys i gael ei gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig, i raddau a all gael ei bennu gan y swyddog priodol cyn y cyfarfod.

Gall amser teithio i ac o leoliad y cyfarfod gael ei gynnwys yn yr hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).

Gall y swyddog priodol yn yr awdurdod bennu rhag blaen a yw cyfarfod wedi'i fwriadu i bara am ddiwrnod llawn a bydd y ffi'n cael ei thalu ar sail y penderfyniad hwn hyd yn oed os bydd y cyfarfod yn dod i ben cyn bod pedair awr wedi mynd heibio.

Mae cyfarfodydd sy'n gymwys ar gyfer ffi'n cynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau tasg a gorffen) neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y gofynnir i aelodau cyfetholedig eu mynychu. (mae rhag-gyfarfodydd gyda swyddogion, hyfforddiant a mynychu cynadleddau eisoes yn gymwys ar gyfer taliad).

## SUT I HAWLIO

Bydd ffi i Aelod Cyfetholedig yn cael ei thalu yn dilyn cyflwyno'r ffurflen hawlio briodol wedi'i chwblhau'n gywir. Mae'r manylion y mae gofyn eu cynnwys ar y ffurflen hawlio fel a ganlyn:

- Eich enw a'ch cyfeiriad ynghyd â'ch rhif yswiriant gwladol a'ch cyfeirnod cyflogres
- Dyddiad a natur y cyfarfod/ydd
- Amser Dechrau a Gorffen y cyfarfod/ydd
- Y cyfanswm sy'n cael ei hawlio
- Eich llofnod
- Dyddiad

## PRYD I HAWLIO

Mae'n rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno i Adain y Gyflogres fan bellaf erbyn y 5ed o'r mis canlynol.

Mae'n bwysig hawlio'n fisol er mwyn cywirdeb, prosesau gwirio, a chraffu dilys (gan y cyhoedd).

Bydd hawliadau sy'n dod i law ac sy'n fwy na 3 mis oed yn cael eu dwyn i sylw Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol a'r arweinydd grŵp priodol ac ni fyddant ond yn cael eu talu yn ôl disgrisiwn y Prif Swyddog Cyllid a TGCh dan amgylchiadau eithriadol. Ni fydd hawliadau dros 6 mis oed yn cael eu talu dan unrhyw amgylchiadau.

## AD-DALIAD COSTAU GOFAL (Gweler Atodiad 1)

Gallwch hawlio ad-daliad am dreuliau a gafwyd wrth drefnu gofal plant, neu ofal dibynnyddion os ydych yn argyhoeddi'r Awdurdod bod angen goruchwyliaeth ar y plentyn neu'r dibynnydd a berodd i chi orfod ysgwyddo'r treuliau a oedd yn angenrheidiol ar gyfer gofal y plentyn neu'r dibynnydd hwnnw er mwyn i chi gyflawni eich dyletswyddau fel Cynghorydd.

Ni fydd lwfans gofal yn cael ei dalu i fwy nag un o Gynghorwyr yr Awdurdod mewn perthynas â gofal am yr un plentyn neu ddibynnydd.

Ni fydd mwy nag un ad-daliad yn cael ei dalu i unrhyw un o Gyngorwyr yr Awdurdod nad yw'n gallu dangos mewn ffordd sy'n rhesymol wrth fodd yr Awdurdod bod rhaid i'r Aelod wneud trefniadau ar wahân ar gyfer gofal am blant neu ddibynyddion gwahanol.

## SUT I HAWLIO

Bydd ad-daliad costau gofal yn cael ei dalu yn dilyn cyflwyno'r ffurflen hawlio briodol wedi'i chwblhau'n gywir. Mae'r manylion y mae gofyn eu cynnwys ar y ffurflen hawlio fel a ganlyn:

- Eich enw a'ch cyfeiriad ynghyd â'ch rhif yswiriant gwladol a'ch cyfeirnod cyflogres .
- Dyddiad a natur y cyfarfod/ydd
- Amseroedd – Gadael a Dychwelyd i'ch Cartref
- Y rheswm dros fod angen gofal
- Enw a Chyfeiriad y gofalwr/wyr
- Eu Perthynas â Chi
- Yr amser y dechreuodd ac y gorffennodd y gofal.
- Nifer yr oriau o ofal a ddarparwyd yn ystod pob ymweliad.
- Y cyfanswm yr ydych yn ei hawlio.
- Eich llofnod.
- Dyddiad.
- Indemniad sy'n datgan fel a ganlyn, "Yr wyf yn cadarnhau y bu'n angenrheidiol i mi ysgwyddo cost y gofal ac yr wyf yn cytuno y gellir cysylltu â'r derbynnydd/derbynwyr a enwir ar y dderbynneb/derbynebau os oes angen."
- Derbynebb a gwblhawyd gan y gofalwr/wyr sy'n cynnwys ei enw/eu henwau a chyfeiriad(au), y cyfanswm a dalwyd iddo/iddynt ac indemniad (uwchben llofnod y gofalwr) sy'n datgan fel a ganlyn, "Yr wyf yn cadarnhau fy mod wedi derbyn yr arian a nodir ac yr wyf yn deall y gall swyddog o'r Awdurdod Lleol gysylltu â mi unrhyw bryd ynghylch y taliad hwn".

## PRYD I HAWLIO

Mae'n rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno i Adain y Gyflogres fan bellaf erbyn y 5ed o'r mis canlynol.

Mae'n bwysig hawlio'n fisol er mwyn cywirdeb, prosesau gwirio, a chraffu dilys (gan y cyhoedd).

Bydd hawliadau sy'n dod i law ac sy'n fwy na 3 mis oed yn cael eu dwyn i sylw Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol a'r arweinydd grŵp priodol ac ni fyddant ond yn cael eu talu yn ôl disgrisiwn y Prif Swyddog Cyllid a TGCh dan amgylchiadau eithriadol. Ni fydd hawliadau dros 6 mis oed yn cael eu talu dan unrhyw amgylchiadau.

## ABSENOLDEB TEULUOL

Yn unol â Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 mae gan aelod etholedig hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol sy'n perthyn i un o'r pum categori canlynol:

Absenoldeb mamolaeth

Absenoldeb newydd-anedig

Absenoldeb mabwysiad

Absenoldeb mabwysiadu newydd

Absenoldeb rhiant

Ym mhob achos o Absenoldeb Teuluol mae'n rhaid i aelod hysbysu Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid ynghylch ei fwriad i gymryd absenoldeb o'r fath. Darperir Canllawiau Llawn yn Atodiad 4 isod.

## ABSENOLDEB DRWY SALWCH AELODAU SY'N HAWLIO UWCH CYFLOG

Mae hyn mewn ymateb i sylwadau gan aelodau etholedig a swyddogion.

Bydd yn cael ei weithredu mewn ffordd debyg i'r dull delio ag absenoldeb teuluol.

- a. Mae Absenoldeb drwy Salwch Cyfnod Hir yn golygu absenoldeb ardystiedig hirach na 4 wythnos.
- b. Ni all absenoldeb drwy salwch fod yn hirach na 26 wythnos, gall y cyfnod dod i ben cyn pen 26 wythnos os mae cyfnod etholedig yr unigolyn yn dod i ben yn gynt na hynny.
- c. Gall Awdurdod dewis p'un a'i pharhau talu Uwch Cyflog yn ystod y cyfnod salwch.
- d. Gall Awdurdod penderfynu p'un a'i neud dirprwyad ond bydd y dirprwy yn gymwys i dderbyn Uwch Cyflog (bydd y rheol 50% ddim yn weithredol).
- e. Os mae'r Awdurdod yn neud dirprwyad mae'n rhaid rhoi rhybudd i'r Panel o fewn 14 diwrnod o'r penderfyniad. Mae'n ofynnol i'r Gofrestr Cydnabyddiaeth Aelodau adlewyrchu'r dirprwyad.
- f. Bydd hyn yn weithredol mewn perthynas ag Aelodau sy'n derbyn Uwch Cyflog gan fod aelodau sydd yn derbyn cyflog sylfaenol yn dal i dderbyn y cyflog hwnnw p'un a'i hydynt yn mynychu cyfarfodydd ai peidio, mae gan yr Awdurdod hawl i ymestyn y cyfnod.

Mae hyn yn cyd-fynd efo'r trefniadau Absenoldeb Teuluol.

## **3 TEITHIO (Gweler hefyd yr adran ar Deithio Dramor)**

Bydd yr Awdurdod hwn yn parhau i ddefnyddio gwasanaeth clwb Teithio Busnes.

Bydd y Clwb Teithio'n trefnu'r holl anghenion teithio a llety ar gyfer Aelodau Etholedig.

Bydd hyn yn darparu dull cyson ar draws yr Awdurdod a bydd yn sicrhau bod y TAW ar bob cyfrif sy'n ymwneud â llety'n gallu cael ei adhawlio.

Bydd yr holl drefniadau ar gyfer teithio / llety yn cael eu gwneud gan y Gwasanaethau Swyddfa (Neuadd y Dref), a dim ond dan amgylchiadau eithriadol y bydd yn ofynnol i Aelodau gyflwyno hawliadau unigol am ad-daliad.

(a) YR HYN Y GALLWCH HAWLIO AMDANO

- (i) Teithio i gyfarfodydd y Cyngor gan gynnwys y Bwrdd Gweithredol, pwyllgorau, is-bwyllgorau, panelau a gweithgorau.
- (ii) Teithio i gyflawni dyletswyddau cymeradwy.
- (iii) Teithio i gyfarfodydd ac ati (gan gynnwys cyfarfodydd gyda Swyddogion) sy'n ymwneud â'r cyfrifoldebau arbennig hynny yr ydych yn cael cydnabyddiaeth ariannol cyfrifoldeb arbennig am eu cyflawni.
- (iv) Teithio i gynadleddau a gymeradwywyd yn unol â dirprwyaethau 23 a 24 y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid sydd wedi'u cynnwys yn Nhabl 5, Rhan 3 yng Nghyfansoddiad y Cyngor (Cyfrifoldeb am Swyddogaethau) mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd. Mewn achosion lle mae'r Arweinydd neu'r Dirprwy Arweinydd yn bwriadu mynd i'r gynhadledd byddir yn ymgynghori â'r Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu.

Mewn perthynas â (ii) a (iii) uchod, dylai penderfyniadau ynghylch teithio, arosiadau dros nos a threuliau eraill (gweler trosodd) gael eu gwneud yn unol â'r protocol yn Atodiad 3.

(b) YR HYN Y GALLWCH EI HAWLIO (Teithio)

Pwrpas treuliau teithio yw ad-dalu costau a ysgwyddwyd mewn gwirionedd. Os nad yw eich taith wedi costio unrhyw beth i chi, er enghraifft am eich bod wedi teithio yng ngherbyd rhywun arall neu wedi cael cludiant am ddim, yna ni allwch hawlio. Rydych yn tystio i chi dalu'r treuliau a hawli'r.

Gallwch hawlio:

- (i) Tocyn bws.
- (ii) Tocyn trê'n – costau dosbarth safonol a chostau cadw seddi os yw hynny'n berthnasol. (Gellir defnyddio/hawlio costau dosbarth cyntaf dim ond os cafodd hynny ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid neu os cafodd ei gymeradwyo gan gorff allanol yr ydych yn ei gynrychioli ac a fydd yn rhoi ad-daliad llawn i'r Cyngor).
- (iii) Milltiroedd car. (Sylwer: Disgwylir i Aelodau deithio gyda swyddogion neu Aelodau eraill pryd bynnag y bo'n bosib). Telir treuliau milltiroedd car y tu allan i ardal y Fwrdeistref Sirol dim ond pan fo'n amlwg nad oedd cludiant cyhoeddus yn ddewis dichonadwy neu lle byddai teithio mewn car yn osgoi'r angen i aros dros nos. Gall Aelodau ddewis defnyddio cludiant heblaw cludiant cyhoeddus ond pris tocyn trê'n fydd yn cael ei dalu ni waeth pa ddull cludiant a ddefnyddiwyd. (Gweler Atodiad 2 am y cyfraddau cyfredol).

Ar Orffennaf 22ain 2014, cyhoeddodd Trysorlys ei Mawrhydi ddatganiad gweinidogol oedd yn rhoi gwybod y bydd deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i ddarparu ar gyfer eithriad penodol o gyfraniadau treth ac Yswiriant Gwladol mewn perthynas â threuliau teithio i Gynghorwyr, gan gynnwys teithio rhwng eu cartref a swyddfeydd y Cyngor.

Roedd y ddeddfwriaeth newydd hon i'w chyflwyno o 6 Ebrill 2015 ac fe'i cynhwyswyd ym Mil Cyllid 2015 a gyhoeddwyd ar 24 Mawrth.

Fodd bynnag, mae nifer o gymalau y bwriadwyd eu cynnwys ym Mil Cyllid 2015 wedi cael eu gohirio o ganlyniad i drafodaethau â'r Wrthblaid yng nghyd-destun proses cau pen y mwdwl diwedd y Senedd. Yn anffodus, mae'r rhain yn cynnwys yr eithriad treth newydd ar gyfer treuliau teithio aelodau awdurdodau lleol. Yn ôl pob golwg, mae'r Llywodraeth yn bwriadu y bydd mesurau sy'n cael eu gohirio ar gyfer bil i'r dyfodol yn cael eu deddfu ar y cyfle cyntaf yn y Senedd newydd.

Hyd nes y bydd hyn wedi'i benderfynu ac y bydd yn gwbl ddi-dreth, os bydd CThEM yn cysylltu â chi mewn unrhyw fodd, rhowch wybod i'r galwr:

1. Eich bod yn aelod etholedig y mae eich cyfeiriad cartref a'ch manylion cysylltu yn gyhoeddus.
  2. O ganlyniad i'ch swydd, gellir cysylltu â chi ar unrhyw adeg dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy ymweliad personol gan etholwr a, phe bai angen, byddech yn gwahodd y galwr i mewn i'ch swyddfa neu eich cartref.
  3. Gallwch ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig os oes angen.
- (iv) Tâl am deithio mewn tacsï ond dim ond mewn achosion brys lle nad oes cludiant cyhoeddus ar gael yn rhesymol.
- (v) Tocyn awyren ond dim ond os cafodd hynny ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid ar sail arbediad amser sylweddol neu am fod brys. (Sylwer: nid yw hyn yn berthnasol i deithio dramor – gweler yr adran ar wahân).
- (c) **PRYD I HAWLIO (Teithio)**

Mae'n rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno i Adain y Gyflogres fan bellaf erbyn y 5ed o'r mis canlynol.

Mae'n bwysig hawlio'n fisol er mwyn cywirdeb, prosesau gwirio, a chraffu dilys (gan y cyhoedd).

Bydd hawliadau sy'n dod i law ac sy'n fwy na 3 mis oed yn cael eu dwyn i sylw Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol a'r arweinydd grŵp priodol ac ni fyddant ond yn cael eu talu yn ôl disgrisiwn y Prif Swyddog Cyllid a TGCh dan amgylchiadau eithriadol. Ni fydd hawliadau dros 6 mis oed yn cael eu talu dan unrhyw amgylchiadau.

#### **4. CYNHALIAETH**

##### **(a) YR HYN Y GALLWCH HAWLIO AMDANO**

Cynhaliath Ddydd – Y Tu Allan i Ardal y Fwrdeistref Sirol (gweler Atodiad 2 am y gyfradd)

Cynhaliath Dros Nos – mae'r gyfradd uchaf (gweler Atodiad 2) yn ymorol am ad-dalu costau llety, prydau bwyd a threuliau eraill mewn cyfnod o 24 awr.

Dylid hawlio am arosiadau dros nos dim ond lle byddai'n afresymol teithio a dychwelyd ar yr un dydd neu mewn llai o ddiwrnodau nag yr hawlir amdanynt. Gall y Prif Swyddog Cyllid a TGCh wrthod hawliadau y mae'n eu hystyried yn ormodol. Bydd Swyddogion Priodol neu Swyddogion sy'n cyd-deithio gydag Aelodau fel arfer yn archebu ac yn trefnu anfonebau ar gyfer gwestai a threnau.

(b) FAINF ALLWCH CHI EI HAWLIO (Cynhaliaeth)

Cynhaliaeth Ddydd – os taloch chi am bryd o fwyd y tu allan i ardal y Fwrdeistref Sirol, gallwch hawlio ad-daliad am dreuliau a gafwyd hyd at yr uchafswm priodol (gweler Atodiad 2).

Ni fydd cost prydau bwyd o fewn y Fwrdeistref Sirol yn cael ei had-dalu.

Cynhaliaeth Dros Nos – hyd at y gyfradd uchaf am 24 awr (gweler Atodiad 2) gall yr hawliad gynnwys

- (i) Cost wirioneddol llety mewn gwesty.
- (ii) Gellir hawlio uchafswm o £25 am aros dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau. Fodd bynnag, bydd treth ac yswiriant gwladol yn daladwy ar unrhyw swm a hawlir.
- (iii) Cost wirioneddol prydau bwyd (gyda derbynebau) fel arfer hyd at y gyfradd uchaf briodol am brydau bwyd.
- (iv) £11.80 am fân dreuliau (gyda derbynebau) os yw'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh yn ystyried bod y gwariant yn briodol.

Sylwer: mae'n rhaid didynnu'r gyfradd briodol am brydau bwyd a ddarparwyd gan barti arall.

(c) SUT I HAWLIO (Cynhaliaeth)

Mae'n rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno i Adain y Gyflogres fan bellaf erbyn y 5ed o'r mis canlynol.

Mae'n bwysig hawlio'n fisol er mwyn cywirdeb, prosesau gwirio, a chraffu dilys. Bydd hawliadau sy'n dod i law ac sy'n fwy na 3 mis oed yn cael eu dwyn i sylw Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol a'r arweinydd grŵp priodol ac ni fyddant ond yn cael eu talu yn ôl disgrisiwn y Prif Swyddog Cyllid a TGCh dan amgylchiadau eithriadol. Ni fydd hawliadau dros 6 mis oed yn cael eu talu dan unrhyw amgylchiadau.

## 5. TEITHIO DRAMOR

(a) CYMERADWYAETH

Mae teithiau tramor i Aelodau'n eithriad. Gall rhai fod wedi'u rhag-gynllunio a chael eu cymeradwyo ymlaen llaw (e.e. teithiau gefeillio dinesig neu ymweliadau â Brwsel/Strasbourg ar faterion Ewropeaidd sy'n berthnasol i Wrecsam). Gall fod mwy o frys gyda rhai eraill megis teithiau sy'n ymwneud â



mewnfuddsoddi. Ni fydd teithiau o'r fath yn cynnwys mwy nag un Aelod fel arfer, a bydd swyddog priodol yn cyd-deithio gyda'r Aelod fel arfer.

Gall cymeradwyaeth gael ei rhoi:

- (i) Ymlaen llaw gan y Bwrdd Gweithredol
- (ii) Mewn achosion o frys (a ddiffinnir fel teithiau lle nad oes cyfarfod gan y Bwrdd Gweithredol wedi'i drefnu cyn y dyddiad pan fo'n rhaid i'r trefniadau fod wedi cael eu gwneud) gan y Prif Weithredwr ar y cyd â'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid neu'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd. Os mai'r Arweinydd yw un o'r unigolion sy'n mynd ar y daith dylai'r swyddogion dan sylw ymgynghori â'r Dirprwy Arweinydd. Mewn achosion lle mae'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd yn ddarpar gyfranogwyr yn y daith byddir yn ymgynghori â'r Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu.

Os yw'r Prif Weithredwr yn mynd ar y daith dylai'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid neu'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh ymgynghori â'r Arweinydd. Os yw'r Arweinydd yn mynd ar y daith dylai'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid neu'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh ymgynghori â'r Prif Weithredwr.

Bydd adroddiad ar fanteision yr ymweliad yn cael ei lunio ar y cyfle cynharaf.

(b) YR HYN Y GELLIR EI HAWLIO

Bydd swyddogion (swyddogion sy'n cyd-deithio neu'r Gwasanaethau Aelodau) yn trefnu a'r Cyngor yn talu am y canlynol:

- (i) Pob taith ryngwladol gan gynnwys trosglwyddiadau a threthi
- (ii) Pob llety mewn gwesty
- (ii) Pob pryd bwyd (os yw'n cyd-deithio gyda'r Aelod)

Gall Aelodau hawlio am y canlynol:

- (i) Taith i/o'r porthladd/maes awyr oni bai ei fod yn teithio gyda swyddog
- (ii) Prydau bwyd yn ôl cyfraddau lleol ar y pryd (os nad oes swyddog yn cyd-deithio) fel a bennwyd gan y Prif Swyddog Cyllid a TGCh mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd. Os yw'r Arweinydd yn mynd ar y daith dylid ymgynghori â'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh.
- (iii) Mân dreuliau sydd ddwywaith gymaint â'r gyfradd yn y DU (gyda derbynebaw) os yw'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh yn ystyried bod y gwariant yn briodol.

(c) SUT I HAWLIO

Dylid hawlio fel arfer ar y ffurflen fisol.

## 6. MATERION ERAILL

### (a) CYNRYCHIOLWYR Y CYNGOR AR GYRFF ERAILL

Gall treuliau a gafwyd gael eu had-dalu i Aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd y corff a awdurdodwyd gan y Cyngor fel Dyletswydd Gymeradwy.

Ni fydd treuliau a ysgwyddwyd er mwyn i'r Aelod gynrychioli'r corff hwnnw yn rhywle arall yn cael eu had-dalu e.e. os mai'r Aelod yw cynrychiolydd y Cyngor ar Gymdeithas X Wrecsam, ni fydd y Cyngor yn talu i'r Aelod gynrychioli Cymdeithas X Wrecsam ar gorff cenedlaethol y Cymdeithasau X. Yr eithriadau i hyn yw lle mae'r corff dan sylw'n addo rhoi ad-daliad i'r Cyngor – ar hyn o bryd mae hyn yn cynnwys y Gymdeithas Llywodraeth Leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Awdurdod Tân Gogledd Cymru (Cadeirydd yn unig).

### (b) PARTÏON GARD D BRENHINOL

Mae'r Cyngor yn gofyn i briod/partner/cydymaith Aelod ddod gydag ef/gyda hi i Bartïon Gardd Brenhinol i gynrychioli'r Cyngor. Mewn achos o'r fath bydd y sawl sy'n dod gyda'r Aelod yn cael ad-daliad am gostau teithio a chynhaliath fel pe bai'n Aelod.

### (c) FFONAU SYMUDOL A FFONAU NEUADD Y DREF

Mae gan rai Aelodau fynediad at ffôn symudol sy'n eiddo i'r Cyngor. Mae gan bob Aelod fynediad at linellau allanol yn Neuadd y Dref. Atgoffir Aelodau mai dim ond ar gyfer busnes swyddogol nad yw'n cynnwys gwaith ar ran y ward y dylid defnyddio'r rhain. Caniateir galwadau mewnol o ffonau Neuadd y Dref.

### (d) CYFRIFIADURON PERSONOL

Atgoffir Aelodau am y canllawiau penodol ar ddefnyddio cyfrifiaduron a ddarparwyd gan y Cyngor gan gynnwys defnyddio'r e-bost a'r Rhyngwyd.

## 7. CYLLID A THOLLAU EI MAWRHYDI

Atgoffir Aelodau y gellir hawlio lwfansau treth mewn perthynas â'r canlynol:

- (i) Teithio (ac eithrio treuliau teithio a ad-dalwyd gan y Cyngor neu gyrff eraill)
- (ii) Defnyddio'r cartref fel swyddfa
- (iii) Tâl post ac offer swyddfa ar gyfer busnes ward

Mae mwy o wybodaeth ar gael oddi wrth Sharon Jones, Rheolwr Tîm Canolfan Wasanaeth AD. Ffôn: 297596.

## ATODIAD 1

### TALIADAU A LWFANSAU AELODAU 2021/22

#### CYFLOG SYLFAENOL

£14,368

#### UWCH GYFLOGAU

(Gan Gynnwys Cyflog Sylfaenol)

Arweinydd - £49,974

Dirprwy Arweinydd - £35,320

Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol â chyfrifoldebau ychwanegol - £30,773

Cadeiryddion Pwyllgorau (os ydynt un cael cydnabyddiaeth ariannol) - £23,161

Arweinydd Grŵp yr Wrthblaid Fwyaf - £23,161

Maer - £23,161

Dirprwy Faer - £18,108

#### TALIADAU I AELODAU CYFETHOLEDIG

Cadeirydd Cyfetholedig – Ffi ddyddiol o £268 (£134 am hanner diwrnod)  
Aelod Cyffredin Cyfetholedig – Ffi ddyddiol o £210 (£105 am hanner diwrnod)

#### LWFANS GOFAL

Uchafswm o £403 y mis

**ATODIAD 2**  
**CYFRADDAU TEITHIO A CHYNHALIAETH AELODAU**

|   | <b>O 1 EBRILL 2016</b> |
|---|------------------------|
|   | <u>£ Cyfanswm</u>      |
| CYNHALIAETH YN YSTOD Y DYDD                                   | 28.00                  |
|   | <u>£ Cyfanswm</u>      |
| CYNHALIAETH DROS NOS<br>(24 AWR)                              |                        |
| Llundain  | 200.00                 |
| Ardaloedd Eraill  | 95.00                  |
| Mân Dreuliau sydd wedi'u cynnwys o fewn y<br>gyfradd dros nos | 11.80                  |
| Aros gyda pherthnasau   | 30.00                  |
| YMWELIADAU TRAMOR   | 23.60                  |
| Mân Dreuliau  |                        |
| <u>MILLTIROEDD CAR/BEIC</u>                                   | <u>Y Filltir</u>       |
| Hyd at 10,000 o filltiroedd                                   | 45.0c                  |
| Dros 10,000 o filltiroedd                                     | 25.0c                  |
| (5c y filltir – ychwanegiad teithiwr)                         |                        |
| Beic Modur Preifat  | 24.0c                  |
| Beic  | 20.0c                  |

Sylwer os gwelwch yn dda: Ni fydd unrhyw hawliad am gynhaliath (nid yw ond yn daladwy y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol) ond yn cael ei ad-dalu am wariant gwirioneddol ac ar ôl cyflwyno derbynebaw

**TEITHIO A CHYNHALIAETH I AELODAU  
PROTOCOL AR GYFER CYFARFODYDD CYRFF ALLANOL**

- (a) Y Cyngor ei hun sy'n awdurdodi cynrychiolaeth gan Aelodau ar gyrff allanol. Gan fod pob gweithgarwch gan gyrff allanol yn berthnasol i un o swyddogaethau'r Cyngor, mae bob amser swyddog priodol sydd â buddiant yn y corff hwnnw.
- (b) Anogir Aelodau i geisio cyngor gan y swyddog priodol ynghylch yr anghenraid i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd arbennig ar sail yr agenda.
- (c) Bydd trafodaethau ynghylch presenoldeb a phenderfyniadau ynghylch teithio a chynhaliaeth yn seiliedig ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod. Bydd swyddogion ac Aelodau'n defnyddio synnwyr cyffredin wrth ystyried teithio yn seiliedig ar amseriad a lleoliad cyfarfodydd a'r gost optimwm. Mae'r enghreifftiau canlynol yn rhoi cipolwg ar y broses ystyried heb iddynt fod yn gynhwysfawr:
  - (i) Os yw'n bosib gadael y cartref ar ôl 7.30am a dychwelyd cyn 9pm gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus yna telir am hynny (a milltiroedd i'r man ymadael) ynghyd â chynhaliaeth ddydd ond nid dros nos.
  - (ii) Os nad yw (i) yn bosib ond ei bod yn bosib gadael a dychwelyd o fewn yr amseroedd gan ddefnyddio car, yna telir lwfans milltiroedd.
  - (iii) Os yw'r amseroedd yn golygu bod angen aros dros nos, yna dylid trefnu'r teithiau ar sail y cyfraddau ar adegau tawel.

## ATODIAD 4

### Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau o Awdurdodau Lleol (Cymru)

Mae Rhan 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn rhoi hawl i aelodau o awdurdodau lleol gymryd cyfnod o absenoldeb teuluol.

Yn unol â Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 mae gan Aelod Etholedig hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol sy'n perthyn i un o'r pum categori canlynol:

1. Absenoldeb mamolaeth
2. Absenoldeb newydd-anedig
3. Absenoldeb mabwysiad
4. Absenoldeb mabwysiadu newydd
5. Absenoldeb rhiant

Ym mhob achos o Absenoldeb Teuluol mae'n rhaid i aelod hysbysu Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid ynghylch ei fwriad i gymryd absenoldeb o'r fath.

Mae gan Aelod hawl i gadw cyflog sylfaenol pan fo'n cymryd absenoldeb teuluol dan y rheoliadau ni waeth beth fo'i hanes o bresenoldeb yn union cyn i'r absenoldeb teuluol ddechrau.

Pan fo deiliad uwch gyflog yn gymwys i gael absenoldeb teuluol, bydd yn gallu parhau i dderbyn y cyflog tra pery'r absenoldeb. Mater i'r Awdurdod yw penderfynu a ddylid penodi dirprwy i gyflawni'r swydd.

Bydd gan yr Aelod sy'n dirprwyo ar ran deiliad uwch gyflog sy'n cymryd absenoldeb teuluol hawl i gael uwch gyflog, os yw'r Awdurdod yn penderfynu hynny.

Os yw talu uwch gyflog i'r Aelod sy'n dirprwyo yn golygu bod yr Awdurdod yn mynd y tu hwnt i uchafswm yr uwch gyflogau ar gyfer yr Awdurdod, fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y Panel, bydd ychwanegiad at yr uchafswm yn cael ei ganiatáu tra bo'r Aelod arall yn dirprwyo.

Pan fo Awdurdod yn cytuno i dalu uwch gyflog i Aelod sy'n dirprwyo yn ystod absenoldeb teuluol, mae'n rhaid hysbysu'r Panel, o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad, ynghylch y manylion gan gynnwys y swydd arbennig a hyd y trefniant dirprwyo.

Mae'n rhaid i'r rhestr cydnabyddiaeth ariannol gael ei diwygio i adlewyrchu goblygiadau'r absenoldeb teuluol.

Mae'r canllawiau llawn ar hawl i Absenoldeb Teuluol fel a ganlyn:

# 1 Absenoldeb mamolaeth

## Amodau rhagnodedig

Heb fod yn hwyrach na diwedd 15 o wythnosau cyn yr wythnos y disgwylir geni'r plentyn, neu, os nad yw hynny'n rhesymol ymarferol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, mae'n rhaid i aelod etholedig fod wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid o'r canlynol:

Bod yr aelod yn feichiog

Yr wythnos y disgwylir geni'r plentyn

Y dyddiad y mae'r aelod yn bwriadu i'r absenoldeb mamolaeth ddechrau a

Hyd y cyfnod o absenoldeb mamolaeth y mae'r aelod yn bwriadu ei gymryd, os yw'n llai na 26 o wythnosau

Gall y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid ofyn am dystysgrif gan ymarferydd meddygol cofrestredig neu fydwraig gofrestrredig yn datgan yr wythnos y disgwylir geni'r plentyn. Pan fo'r aelod yn dymuno amrywio dechrau'r absenoldeb mamolaeth mae'n rhaid iddi fod wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid o'r dyddiad dechrau newydd o leiaf un wythnos cyn y dyddiad a bennwyd neu o leiaf un wythnos cyn y dyddiad newydd, pa un bynnag sydd gynharaf neu, os nad yw hynny'n rhesymol ymarferol, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol; a phan fo'r aelod yn dymuno amrywio hyd yr absenoldeb mamolaeth, mae'n rhaid bod yr aelod wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid o'r hyd newydd o leiaf un wythnos cyn diwedd y cyfnod o absenoldeb a ddisgwylir, neu o leiaf un wythnos cyn diwedd arfaethedig newydd y cyfnod o absenoldeb, pa un bynnag sydd gynharaf, neu, os nad yw hynny'n rhesymol ymarferol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Y cyfnod o absenoldeb mamolaeth

Y cyfnod o absenoldeb mamolaeth yw 26 o wythnosau, onid yw'r aelod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig y bydd y cyfnod o absenoldeb mamolaeth yn llai na 26 o wythnosau.

Pryd y caniateir cymryd absenoldeb mamolaeth

Ni chaniateir cymryd absenoldeb mamolaeth ond os yw'n cael ei gymryd fel ei fod yn dechrau yn ystod y cyfnod—

- (a) sy'n dechrau ar ddechrau'r unfed wythnos ar ddeg cyn yr wythnos y disgwylir geni'r plentyn; ac
- (b) sy'n dod i ben ar y diwrnod ar ôl diwrnod geni'r plentyn.

Yr Aelod i ddewis dyddiad dechrau'r absenoldeb mamolaeth

Caiff aelod ddewis y dyddiad pryd y bydd ei absenoldeb mamolaeth i ddechrau. Pan fo Aelod, yn ystod y cyfnod o bedair wythnos cyn dechrau'r wythnos y disgwylir geni'r plentyn, yn absennol o un o gyfarfodydd yr awdurdod am reswm sy'n ymwneud yn llwyr neu'n rhannol â'r beichiogrwydd, mae'r cyfnod o absenoldeb mamolaeth yn dechrau ar y diwrnod ar ôl y cyfarfod y mae'r aelod yn absennol ohono.

Pan nad yw absenoldeb mamolaeth aelod wedi dechrau yn unol â'r dyddiad a hysbyswyd gan aelod ar adeg geni'r plentyn, mae absenoldeb mamolaeth yr aelod hwnnw yn dechrau ar y diwrnod ar ôl diwrnod geni'r plentyn.

Terfynu cyfnod o absenoldeb mamolaeth Caiff aelod derfynu cyfnod o absenoldeb mamolaeth yn gynharach na diwedd y cyfnod a hysbyswyd drwy hysbysu'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid yn ysgrifenedig o'i bwriad i wneud hynny o leiaf 7 niwrnod cyn iddi ddychwelyd.

Diddymu absenoldeb mamolaeth

Caiff aelod ddiddymu cyfnod o absenoldeb mamolaeth o dan yr amgylchiadau canlynol —

- (a) nid yw'r cyfnod o absenoldeb mamolaeth wedi dechrau hyd yn hyn; ac
- (b) mae'r aelod wedi hysbysu'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid yn ysgrifenedig o'i bwriad i ddiddymu'r absenoldeb.

## **2 Absenoldeb newydd-anedig**

Amodau rhagnodedig

Yr amodau rhagnodedig yw bod yr aelod—

(a) naill ai—

- (i) yn dad i'r plentyn ac yn gyfrifol am fagu'r plentyn neu'n disgwyl bod â chyfrifoldeb o'r fath; neu
- (ii) yn briod â mam y plentyn, yn bartner sifil iddi neu'n bartner iddi, ond heb fod yn dad i'r plentyn, ac yn bennaf gyfrifol (heblaw am unrhyw gyfrifoldeb ar y fam) am fagu'r plentyn, neu'n disgwyl bod â chyfrifoldeb o'r fath; ac

(b) yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid o'r dyddiad y mae'r aelod yn bwriadu i'r cyfnod o absenoldeb newydd-anedig ddechrau.

Mae aelod i'w drin fel pe bai'n bodloni'r amod pe bai'r aelod hwnnw wedi bodloni'r amod heblaw am y ffaith bod mam y plentyn wedi marw.

Mae aelod i'w drin fel pe bai'n bodloni'r amodau pe bai wedi bodloni'r amodau heblaw am y ffaith bod y plentyn yn farw-anedig ar ôl 24 o wythnosau o feichiogrwydd neu wedi marw.

Rhychwant yr hawl i absenoldeb newydd-anedig

Mae gan aelod hawl i ddwy wythnos olynol o absenoldeb newydd-anedig. Pan fo mwy nag un plentyn yn cael ei eni o ganlyniad i'r un beichiogrwydd, nid oes gan yr hawl i absenoldeb newydd-anedig ond mewn perthynas â'r plentyn cyntaf-anedig.



Pryd y caniateir cymryd absenoldeb newydd-anedig:

Ni chaniateir cymryd absenoldeb newydd-anedig ond os yw'n cael ei gymryd yn ystod y cyfnod—

- (a) sy'n dechrau ar ddyddiad geni'r plentyn; ac
- (b) sy'n dod i ben 56 o ddyddiau ar ôl y dyddiad hwnnw.

Diddymu absenoldeb newydd-anedig

Caiff aelod ddiddymu cyfnod o absenoldeb newydd-anedig o dan yr amgylchiadau canlynol—

- (a) nid yw'r cyfnod o absenoldeb newydd-anedig wedi dechrau hyd yn hyn; ac
- (b) mae'r aelod wedi hysbysu'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid yn ysgrifenedig o'i fwriad i ddiddymu'r absenoldeb.

Yr Aelod i ddewis dyddiad dechrau'r absenoldeb newydd-anedig

Ar yr amod y bydd y cyfnod o absenoldeb newydd-anedig yn dod i ben o fewn y cyfnod (a) sy'n dechrau ar ddyddiad geni'r plentyn; ac sy'n dod i ben 56 o ddyddiau ar ôl y dyddiad hwnnw, caiff aelod ddewis ar ba ddyddiad y bydd ei absenoldeb newydd-anedig yn dechrau.

### **3. Absenoldeb mabwysiadydd**

Amodau rhagnodedig

Yr amodau rhagnodedig yw bod yr aelod—

- (a) yn fabwysiadydd i'r plentyn; ac
- (b) yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid o'r dyddiad y mae'r aelod yn bwriadu i'r cyfnod o absenoldeb mabwysiadydd ddechrau.

Rhychwant yr hawl i absenoldeb mabwysiadydd

Mae gan aelod hawl i ddwy wythnos olynol o absenoldeb mabwysiadydd.

Pryd y caniateir cymryd absenoldeb mabwysiadydd

Ni chaniateir cymryd absenoldeb mabwysiadydd ond os yw'n cael ei gymryd yn ystod y cyfnod—

- (a) sy'n dechrau ar y dyddiad y mae'r plentyn yn cael ei leoli gyda'r aelod ar gyfer ei fabwysiadu; ac
- (b) sy'n dod i ben 56 o ddyddiau ar ôl y dyddiad hwnnw.

Yr Aelod i ddewis dyddiad dechrau'r absenoldeb mabwysiadydd

Ar yr amod y bydd y cyfnod o absenoldeb mabwysiadu yn dod i ben o fewn y cyfnod a ragnodir gan reoliad 16, caiff aelod ddewis ar ba ddyddiad y bydd ei absenoldeb mabwysiadu yn dechrau.

Caiff aelod ddiddymu cyfnod o absenoldeb mabwysiadu o dan yr amgylchiadau canlynol—

- (a) nid yw'r cyfnod o absenoldeb mabwysiadu wedi dechrau hyd yn hyn; ac
- (b) mae'r aelod wedi hysbysu'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid yn ysgrifenedig o'i fwriad i ddiddymu'r absenoldeb.

Yn y Rhan hon—

ystyr "mabwysiadu", mewn perthynas â phlentyn, yw aelod sydd wedi ei baru â phlentyn ar gyfer ei fabwysiadu, neu mewn achos pan fo dau aelod wedi eu paru ar y cyd, pa un bynnag ohonynt sydd wedi dewis bod yn fabwysiadu y plentyn at ddibenion y Rhan hon;

ystyr "asiantaeth fabwysiadu" yw corff y caniateir cyfeirio ato fel asiantaeth fabwysiadu yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(1); ac

ystyr "plentyn" yw rhywun sydd o dan ddeunaw mlwydd oed, neu a oedd o dan yr oedran hwnnw pan gafodd ei leoli gyda mabwysiadu ar gyfer ei fabwysiadu.

At ddibenion y Rhan hon mae aelod wedi ei baru â phlentyn ar gyfer ei fabwysiadu pan fo asiantaeth fabwysiadu yn hysbysu'r aelod hwnnw o'i phenderfyniad bod yr aelod yn rhiant mabwysiadol addas ar gyfer y plentyn, p'un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â rhywun arall.

#### **4 Absenoldeb mabwysiadu newydd**

Amodau rhagnodedig

- (a) yn briod â mabwysiadu y plentyn, yn bartner sifil i'r mabwysiadu neu'n bartner i'r mabwysiadu;
- (b) yn bennaf gyfrifol (heblaw am gyfrifoldeb y mabwysiadu) am fagu'r plentyn, neu'n disgwyl bod â chyfrifoldeb o'r fath; ac
- (c) yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid o'r dyddiad y mae'r aelod yn bwriadu i'r cyfnod o absenoldeb mabwysiadu ddechrau.

Rhychwant yr hawl i absenoldeb mabwysiadu newydd

Mae gan aelod hawl i ddwy wythnos olynol o absenoldeb mabwysiadu newydd. Pan fo mwy nag un plentyn yn cael ei leoli gyda'r aelod fel rhan o'r un trefniant, nid oes gan aelod yr hawl i absenoldeb mabwysiadu newydd ond mewn perthynas â'r plentyn cyntaf a leolir gyda'r aelod ar gyfer ei fabwysiadu.

Pryd y caniateir cymryd absenoldeb mabwysiadu newydd

Ni chaniateir cymryd absenoldeb mabwysiadu newydd ond os yw'n cael ei gymryd yn ystod y cyfnod —

- (a) sy'n dechrau ar y dyddiad y mae'r plentyn yn cael ei leoli gyda mabwysiadudd y plentyn; ac
- (b) sy'n dod i ben 56 o ddyddiau ar ôl y dyddiad hwnnw.

Diddymu absenoldeb mabwysiadu newydd

Caiff aelod ddiddymu cyfnod o absenoldeb mabwysiadu newydd o dan yr amgylchiadau canlynol—

- (a) nid yw'r cyfnod o absenoldeb mabwysiadu newydd wedi dechrau hyd yn hyn; ac
- (b) mae'r aelod wedi hysbysu'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid yn ysgrifenedig o'i fwriad i ddiddymu'r absenoldeb.

Yr Aelod i ddewis dyddiad dechrau'r absenoldeb mabwysiadu newydd

Ni chaniateir cymryd absenoldeb mabwysiadu newydd ond os yw'n cael ei gymryd yn ystod y cyfnod—

- (a) sy'n dechrau ar y dyddiad y mae'r plentyn yn cael ei leoli gyda mabwysiadudd y plentyn; ac
- (b) sy'n dod i ben 56 o ddyddiau ar ôl y dyddiad hwnnw.

Ar yr amod y bydd y cyfnod o absenoldeb mabwysiadu newydd yn dod i ben o fewn 56 o ddyddiau caiff aelod ddewis ar ba ddyddiad y bydd ei absenoldeb mabwysiadu newydd yn dechrau.

Dehongli'r Rhan hon

Ystyr “mabwysiadudd”, mewn perthynas â phlentyn, yw rhywun sydd wedi ei baru â phlentyn ar gyfer ei fabwysiadu, neu mewn achos pan fo dau aelod wedi eu paru ar y cyd, pa un bynnag ohonynt sydd wedi dewis bod yn fabwysiadudd y plentyn at ddibenion y Rheoliadau hyn;

Ystyr “asiantaeth fabwysiadu” yw corff y caniateir cyfeirio ato fel asiantaeth fabwysiadu yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002;

Ystyr “plentyn” yw rhywun sydd o dan ddeunaw mlwydd oed, neu a oedd o dan yr oedran hwnnw pan gafodd ei leoli gyda mabwysiadudd ar gyfer ei fabwysiadu.

At ddibenion y Rhan hon mae rhywun wedi ei baru â phlentyn ar gyfer ei fabwysiadu pan fo asiantaeth fabwysiadu yn penderfynu y byddai'r unigolyn hwnnw'n rhiant mabwysiadol addas ar gyfer y plentyn, p'un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â rhywun arall.

## 5 Absenoldeb rhiant

Amodau rhagnodedig

Yr amodau rhagnodedig yw—

- (a) na allai'r aelod fodloni'r amodau rhagnodedig o dan Rannau 2 i 4 o'r Rheoliadau hyn;
- (b) bod yr aelod yn gyfrifol am ofalu am y plentyn, neu'n disgwyl cael cyfrifoldeb o'r fath;
- (c) bod yr aelod yn darparu hysbysiad ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid o'r canlynol—
  - (i) ei fwriad i gymryd absenoldeb rhiant;
  - (ii) y dyddiad y mae'r aelod yn bwriadu i'r absenoldeb rhiant ddechrau;
  - (iii) hyd yr absenoldeb rhiant arfaethedig; ac
  - (iv) a fwriedir i'r absenoldeb gael ei gymryd fel un cyfnod o absenoldeb neu fel cyfres o absenoldebau.

Bod yr aelod, os cafodd gais i wneud hynny gan y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid, wedi darparu tystiolaeth i'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid ynglŷn â rhychwant y cyfrifoldeb am y plentyn; a bod yr aelod, pan fo'r absenoldeb rhiant i'w gymryd fel cyfres o absenoldebau, yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig ymlaen llaw i'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid o'r dyddiad dechrau arfaethedig a hyd arfaethedig pob cyfnod o absenoldeb rhiant.

Rhychwant yr hawl i absenoldeb rhiant

Mae gan aelod hawl i naw deg o ddiwrnodau o absenoldeb rhiant.

Caniateir cymryd absenoldeb rhiant fel cyfres o gyfnodau o absenoldeb neu fel un cyfnod.

Pryd y caniateir cymryd absenoldeb rhiant

Ni chaniateir cymryd absenoldeb ond os yw'n cael ei gymryd yn ystod y cyfnod

- (a) sy'n dechrau ar y dyddiad y mae'r aelod yn ysgwyddo cyfrifoldeb am ofalu am blentyn o dan 14 mlwydd oed; ac
- (b) sy'n dod i ben un flwyddyn wedi hynny.

Terfynu cyfnod o absenoldeb rhiant

Caiff aelod derfynu unrhyw gyfnod o absenoldeb rhiant yn gynharach na'r hyn a hysbyswyd drwy hysbysu'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid yn ysgrifenedig o'i fwriad i derfynu'r cyfnod o absenoldeb rhiant.

Diddymu cyfnod o absenoldeb rhiant

Caiff aelod ddiddymu cyfnod o absenoldeb rhiant o dan yr amgylchiadau canlynol—

- (a) nid yw'r cyfnod o absenoldeb rhiant wedi dechrau hyd yn hyn; ac
- (b) mae'r aelod wedi hysbysu'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid yn ysgrifenedig o'i fwriad i ddiddymu'r cyfnod o absenoldeb rhiant.

Yr Aelod i ddewis dyddiad dechrau'r absenoldeb rhiant

Ar yr amod bod y dyddiad o fewn y cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad y mae'r aelod yn ysgwyddo cyfrifoldeb am ofalu am blentyn o dan 14 mlwydd oed ac sy'n dod i ben un flwyddyn wedi hynny, caiff aelod ddewis y dyddiad pryd y bydd unrhyw gyfnod o absenoldeb rhiant i ddechrau.